**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1106
Ein cyf/Our ref JMSS/10640/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Ionawr 22

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 03/12/2021 ynglŷn â'r ddeiseb i gyflwyno Cyllidebau Iechyd Personol a Gofal Personol yng Nghymru.

Y disgwyl clir a diamwys yng Nghymru yw y dylid darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol personol, di-dor ac integredig sy'n galluogi unigolion i barhau i ddefnyddio eu llais ac ymarfer rheolaeth lle y byddant yn dymuno gwneud hynny.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod drwy'r profiadau personol y mae Rhys Bowler ac eraill wedi eu rhannu â ni bod pryderon yn parhau o ran gallu pobl i ddefnyddio eu llais ac ymarfer eu rheolaeth dros eu gofal, pan na allant dderbyn taliadau uniongyrchol o dan Ofal Iechyd Parhaus y GIG.

Mae ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a thaliadau uniongyrchol.

Rwyf wedi ymrwymo i edrych ar y gwahanol opsiynau mewn perthynas â'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a thaliadau uniongyrchol, gan gynnwys sut y gellid defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer derbynwyr Gofal Iechyd Parhaus, rhywbeth a fyddai'n debyg i gyllidebau iechyd personol yn Lloegr.

Fe wneuthum wella'r Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus (Fframwaith 2021) gan gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ohono ym mis Gorffennaf. Roedd yn cynnwys nifer o fesurau penodol i wella'r rhyngwyneb dan sylw. Y bwriad oedd ei roi ar waith ddiwedd Tachwedd, fodd bynnag oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys pwysau parhaus COVID-19 a phwysau'r gaeaf, rydym am ohirio ei weithredu tan 1 Ebrill 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn cyhoeddi'r Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus newydd ym mis Gorffennaf, bu swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Rhys Bowler, i ystyried y diwygiadau posibl y gellid eu gweithredu o fewn ffiniau cyfreithiol y Fframwaith, ac a allai gael eu cynnwys i gefnogi llais a rheolaeth yn y maes. Fe wnaethom nodi'r mecanweithiau canlynol:

- Y bwrdd iechyd lleol yn cyflogi personél (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), a oedd yn cael eu cyflogi'n flaenorol gan yr unigolyn, drwy daliadau uniongyrchol
- Y bwrdd iechyd lleol yn comisiynu Ymddiriedolaeth Defnyddiwr Annibynnol, o bosib wedi ei sefydlu gan aelod o deulu'r unigolyn sy'n derbyn gofal, i reoli gofal yr unigolyn hwnnw.

Mae Ymddiriedolaeth Defnyddiwr Annibynnol yn bodoli lle bydd perthynas yr unigolyn neu bartïon perthnasol eraill yn sefydlu ymddiriedolaeth sy'n gweithredu fel y darparwr gofal ar gyfer yr unigolyn. Mae'r bwrdd iechyd lleol wedyn yn contractio, gyda'r ymddiriedolaeth, i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol penodol i'r unigolyn.

Rydym hefyd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer y tymor hirach, gan gynnwys yr opsiwn o ddeddfu i ganiatáu i fyrddau iechyd ddarparu taliadau uniongyrchol o dan Ofal Iechyd Parhaus.

Fe wnaethom gynnal cyfarfod adeiladol o'r gweithgor gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Rhys Bowler, ar 16 Rhagfyr i drafod y materion hyn.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services